Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# FFORWM CYLLID YSGOLION
# Dydd Mawrth, Tachwedd 15fed 2022
# (Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis)

## NODIADAU

**PRESENNOL:**

Keith Maher (Pen Y Dre) - Cadeirydd
Stuart James (Afon Taf)
Sarah Hopkins (Bendigaidd Carlo Acutis)
Owen Morgan (Parc Cyfarthfa)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Simone Roden (Ynysowen)
Sarah Townsin (Coed Y Dderwen)
Gwyndaf Jones ( Santes Tudful)
Laurence Matuszczyk (Trefedward)
Paul Phillips (Pen-Y-Dre)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Garhard Williams (Cynrychilydd Undeb Llafur)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio a Gwella Addysg)
Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)
Ian Kent (Cyfrifydd Ysgolion)
Y Cynghorydd A Barry (Portffolion Cabinet am Lywodraethu ac Adnoddau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Paul Davies (Caffael)
Adam Richards (Caffael)
Joanna Lewis (Rheolwr LMS)
Gary Winston (Clerc i'r Fforwm)

**YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB:**

Y Cynghorydd Michelle Jones (Arweinydd Portffolio Addysg)
Mike O'Neill (Pen Y Dre)
Ryan Morgan (Partneriaeth DdysguTaf Bargoed)
David Anstee (Ysgol Y Graig)

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| **1.** | **<u>Croeso</u>**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolch iddynt am eu presenoldeb. Gwnaed y cyflwyniadau. |
| **2.** | **<u>Munudau</u>**<br>Cytunwyd bod cofnodion Cyfarfod y Fforwm Ysgolion a gynhaliwyd ar Fedi'r 28ain2022, fel cofnod cywir. |
| **3.** | **<u>Materion yn codi o'r munudau</u>**<br>3.01 <u>(4.0) Cylch Gorchwyl</u> |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | Nododd AL bod Cylch Gorchwyl wedi ei ddiweddaru ac wedi ei ddosbarthu sy'n adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.<br><br>3.02 <u>(6.0) Aelodaeth</u><br>Nodwyd bod lle gwag ar gyfer y grwp BCA/Greenfield. Os nad oes diddordeb, cytunwyd i ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf. |
| **4.** | **<u>Dadansoddiad Gwariant Caffael</u>**<br>Cyflwynodd Paul Davies ac Adam Richards ddata caffael ar gyfer yr Awdurdod Lleol a oedd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Newid trefniadaeth a diwylliant.<br>• Data caffael ar hyd yr Awdurdod Lleol.<br>• Dadansoddiad Ysgolion.<br><br>Y nodwedd allweddol oedd bod gan ysgolion nifer uchel o ddarparwyr nwyddau/ gwasanaethau a bod y nifer yn cynyddu.<br><br>**PP: Alla i ofyn, am y cyfnodau cymharu sydd wedi eu defnyddio- mae un set o ddata ar gyfer Ionawr- Rhagfyr 2021 ac mae'r llall yn Gorffennaf 2021-Mehefin 2022. Ydi hi'n rhesymol gwneud cymhariaeth am ddau gyfnod gwahanol sy'n gor gyffwrdd a'u gilydd?**<br>AR: Pwynt teg, mae angen data er mwyn gallu cymharu, efallai nad yw yn ddelfrydol ond mae yn rhoi man cychwyn i ni. Wrth symud ymlaen, byddwn yn casglu data bob chwe mis, ac os oes angen yn adrodd yn ol eto.<br><br>**LM: Dwi'n ei weld yn od bod y cyfnodau yn gorgyffwrdd eu gilydd am 6 mis, a ddim yn ein galluogi i wneud cymhariaeth manwl gywir.**<br>AR: Mae yna orgyffwrdd, ond mae yn dangos bod y nifer cyflenwyr a ddefnyddir gan ysgolion yn tyfu a bod hyn yn rhywbeth mae angen i ni ymateb iddo.<br><br>Mae'r ffigyrau yn dangos ble mar gwariant uchel mae nifer cymharol fach o gyflenwyr oherwydd bod rhain ar gyfer ein prif gyflenwyr- asiantaethau cyflenwi, contract glanhau ac ynni. Ond mae nifer uchel o gyflenwyr bach, llawer mwy nag unrhyw le arall yn y Cyngor ac mae hyn yn rhywbeth y galllwn helpu gyda.<br><br>PP: Dwi'n credu bod angen gweld tystiolaeth clir o hyn.<br><br>**LM: Yn fy mhrofiad i, mae ysgolion yn poeni am ddyfynbrisiau anrealistig gan gwmniau adeiladu, sydd yn gontractiwr proffesiynol. Mae'n ymddangos nad ydym yn cael gwerth am arian yn y math yma o ddyfyniad pris.**<br>AB: Dyna yw y prif her, mae'r un peth yn wir o fewn y Cyngor, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian.<br><br>SW: Mae angen gwneud yn siwr bod cyflenwyr sydd ar y fframwaith caffael yn darparu gwerth am arian.<br><br>**GW: Mae'r graff yn dangos bod £1.6 miliwn wedi ei wario gyda Valley Education, sydd yn** |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | **gwmni preifat gwneud elw, onid yw hyn yn fater i ofidio amdano?**<br>SW: Mae hyn yn fater i Lywodraeth Cymru.<br><br>**SR: Fyddwn ni'n edrych ar Wasanaethau Eiddo? Dyw'r drefn bresennol ddim yn gweithio, mae'r costau yn rhy uchel ond mae gan ysgolion ofn mynd at rywun arall. Dydyn ni ddim eisiau mynf lawr yr un llwybr am wasanaethau eraill. Mae TG hefyd yn ardal ble maen rhiad i ni fynd at y darparwyr dewisol ond mae opsiynau rhatach ar gael.**<br><br>**KM: Mae angen i ni sicrhau bod y darparwyr dewisol hefyd yn ddarparwyr sy'n gost effeithiol.**<br>AR: Rydym yn derbyn adborth gan ysgolion am gostau cyflenwyr.<br><br>RSD: Rydw i'n cytuno ond fy mhrif ofid yw costau cynnal a chadw a thrwsio.<br><br>Diolchodd PD i'r Fforwm am y sylwadau a dwedodd y byddai yn adeiladu ar y drafodaeth a gweithio gyda'n gilydd i ymateb i'r materion a godwyd. |
| 5. | **<u>Mantolen Ysgolion ledled Cymru 2021/2022</u>**<br>Cyflwynodd JL yr adroddiad uchod a nodi'r uchafbwyntiau canlynol:<br><br>• Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf mae arian wrth gefn ysgolion wedi cynyddu yn sylweddol oherwydd effaith y pandemig a'r cyllid craidd ychwanegol a gyhoeddwyd yn hwyr yn y flwyddyn.<br>• Ym Merthyr Tudful, roedd y grant hwyr hwn yn £2-6 milliwn gyda cyfrifon ysgolion yn cynyddu i £2.1 milliwn flwyddyn ar flwyddyn. Os na fyddai'r grant wedi ei derbyn byddai'r cyfrifon wedi gostwng gan £518,000.<br>• Mae'r arian dros ben yn ysgolion Merthyr Tudful bellach yn 11.4% o'r gwariant a ddirprwyir i ysgolion sydd yn uwch na'r cyfartaledd o 10.9% ac yr 8fed uchaf yng Nghymru.<br>• Roedd Merthyr Tudful yn un o 13 ALl ble doedd dim ysgol gyda chyfrif negatif. Yn gyfan gwbl, roedd gan Merthyr 4% o ysgolion gyda mantolen rhwng 0-5%, 37% gyda mantolen o rhwng 5-10% a 59% gyda mantolen o dros 10%.<br><br>Mae gennym y nifer fwyaf o ysgolion gyda rhwng 5-10% a nifer fach gyda mantolen o dros 10%.<br><br>Nododd yr aelodau yr adroddiad a'r papur briffio. |
| 6. | **<u>Cyllido LRB</u>**<br>Esboniodd AL bod hon yn ardal yr adnabuwyd ar gyfer gweithio arni ac yn dilyn trafodaeth gyda chydweithwyr yn yr Adran ADY awgrymir sefydlu Grwp Gwaith ADY er mwyn ystyried ac adrodd yn ol i'r grwp gyda'r bwriad o wneud newidiadau ym mis Ebrill 2024.<br><br>**PP: Oes unrhyw fodelau cyllid arall wedi eu paratoi?**<br>AL: Rydym yn gobeithio y bydd y rhan fwyaf o ysgolion gyda dosbarthiadau LRB yn cael eu cynrychioli ar y grwp. Gallen ni rannu peth gwybodaeth, ond dydw i ddim yn meddwl ei fod yn addas gwneud heddiw.<br><br>**SJ: Fy ysgol i yw'r unig ysgol uwchradd gyda LRB, fydd pob ysgol yn derbyn yr un model** |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | **cyllido?**<br>AL: Byddai.<br><br>**SR: Dydw i ddim yn gweld pam na allwn ni dalu cyflog gwirioneddol, all neb ddadlau wedyn. Os byddai model gwahanol, bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled.**<br>AL: Mae hynny'n gywir.<br><br>SR: Maen rhaid bod rhai ysgolion ar eu hennill ar hyn o bryd gyda'r model cyflog cyfartaledd. All hynny ddim bod yn deg.<br><br>SJ: Byddai model cyflog gwirioneddol yn haws ei werthu i ysgolion eraill.<br><br>**LM: Fydd yr adolygiad model cyllido hefyd yn edrych ar faterion fel adnoddau?**<br>AL: Mae'n debyg y bydd yn ffurfio rhan o'r adolygiad cyfan, os bydd staff LRB hefyd yn rhan ohyn bydd o help. |
| **7.** | **<u>Arbedion Effeithlonrwydd</u>**<br>Nododd SJ eu bod wedi cytuno i gynnal Cyfarfod Arbennig o'r Fforwm Cyllideb ar Ragfyr 16eg i dderbyn adborth am Setliad yr AwdurdodLleol ar gyfer 2023/2024. Roeddwn eisiau rhoi diweddariad pellach yn seiliedig ar y ffigyrau diweddaraf rydym yn amcangyfrif bod y bwlch cyllido wedi tyfu o £11 milliwn i £14.8 milliwn. Mae hyn o ganlyniad i'r setliad cyflog diweddaraf, amcangyfrifon costau ynni a chwyddiant.<br><br>Mae hyn yn seiliedig ar ein setliad dangosol o +3.5% a chynnydd o 1% mewn treth cyngor. Roeddem yn flaenorol wedi nodi y byddai tri opsiwn i ysgolion arbed rhwng £500,000 a £1.5 milliwn. Rydym nawr angen eich hysbysu bod y ffigwr yn hyd at £3 milliwn o ysgolion.<br><br>Rydym yn aros am fwy o wybodaeth, ond mae'n sefyllfa ddifrifol, ac mae'r Cyngor yn edrych ar wneud hyd at £11.8 milliwn mewn arbedion.<br><br>GW: Mae yna hefyd fygythiad o weithredu diwydiannol, mae ychydig yn fwy cymleth yng Nghymru ond mae'n debygol o ddigwydd yn y flwyddyn newydd.<br><br>**SR: Oes yna unrhyw asesiad dangosol o effaith torri £3 milliwn?**<br>SW: Ddim eto, ond rydym yn gweithio arno.<br><br>AB: Dwi'n credu mai hwn yw y darlun gwaethaf a bydd llawer yn digwydd cyn y cyhoeddiad, ac rydym yn gobeithio na fydd mor wael ag y mae Steve wedi ei nodi.<br><br>Diolchodd yr aelodau i SJ am y diweddariad. |
| **8.** | **<u>Unrhyw Fater Arall</u>**<br>8.01 <u>Lles Emosiynol</u><br>**SR: Pam fod ysgolion wedi gorfod talu am y project, pam nad ydynt wedi cymryd rhan ynddo?**<br>AL: Fe roddon ni gyllid ychwanegol i ysgolion yn 2021/2022 ond ni filwyd ni tan 2022/2023. Fe wnaf i ysgrifennu at ysgolion i egluro'r sefyllfa. |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | **SR: Yn y dyfodol allwn ni drafod hyn yn y cyfarfod Penaethiaid cyn iddo ddigwydd, doedden ni ddim eisiau cymryd rhan.**<br>SW: Gall y Grwp Lles ystyried hyn.<br><br>8.02 Gwyndaf Jones<br>Esboniodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Gwyndaf cyn iddo symud i ysgol newydd a chymrodd y cyfle i ddiolch iddo a dymuno'n dda iddo at y dyfodfol. |